Storïau rheng flaen am ddatgoedwigo

Pobl y Gwarani, Brasil

Mae'r Gwarani yn un o bobloedd Brodorol mwyaf poblog Brasil, a'u tiriogaeth hynafiadol yw Coedwig yr Iwerydd Brasil.[46] Mae Coedwig yr Iwerydd yn cynnwys tua 5% o fioamrywiaeth y byd o ran rhywogaethau planhigion ac anifeiliaid ac fe'i hystyrir yn ardal flaenoriaeth ar gyfer cadwraeth amgylcheddol – mae'n un o'r pum man poeth byd-eang.[47] Mae afonydd a tharddellau'r goedwig yn gyfrifol am y rhan fwyaf o gyflenwad dŵr croyw Brasil, gan wasanaethu 130 miliwn o bobl.[48] Fodd bynnag, mae Coedwig yr Iwerydd a'r bobl Frodorol sy'n byw yn y bïom hwn dan fygythiad oherwydd ehangiad busnes amaeth yn y rhanbarth, yn enwedig soi ungnwd. Yn hanesyddol, roedd y goedwig yn cwmpasu 1.2 miliwn km2 – tua chwarter maint yr Amazon. Heddiw, ar ôl canrifoedd o ddatgoedwigo, newid mewn defnydd tir ac ehangu trefol, mae llai na 10% o'r cynefin gwerthfawr hwn ar ôl mewn ardaloedd gwarchodedig a lleiniau tameidiog o goedwig,[49] sydd yn aml wedi'u hamgylchynu gan blanhigfeydd ungnwd.

Yn niwylliant y Gwarani, mae bywydau pobl wedi ymblethu a'u cysylltu â bywydau'r holl fodau eraill yn y goedwig. Dydyn nhw ddim yn eu hystyried eu hun ar wahân i natur. Maent yn bwydo, diogelu ac yn parchu'r ddaear, planhigion, anifeiliaid a phryfed, gan ystyried bod eu bywydau yn gyfartal – dydyn nhw fyth yn ceisio cael pŵer dros natur, neu ei hecsbloetio.

> "I gynnal, ein nhandereko – ein ffordd o fyw – mae'n rhaid cadw'r coedwigoedd a'u holl fodau yn fyw hefyd"
>
> Indigenous leader, o'r Commissao Guarani Yvyrupa

Fodd bynnag, mae grymoedd economaidd nerthol yn dinistrio ac yn ecsbloetio'r goedwig ar gyfer cynhyrchu soi. Mae'r Gwarani yn ymladd i ddiogelu eu tiroedd ac, o ganlyniad, maent yn dioddef gwahaniaethu, camdriniaeth, bygythiadau a brawychu bob dydd.[50]

Mae llawer wedi cael eu llofruddio, ac os yw eu pentrefi'n agos at blanhigfeydd busnes amaeth, maent yn cael eu chwistrellu'n rheolaidd â phlaleiddiaid sy'n effeithio ar iechyd eu plant, planhigion ac anifeiliaid. Mae tirnodau ysbrydol wedi cael eu boddi a phentrefi wedi'u dinistrio i

Gweler cyfeiriadau 46-50



© Caleb Swinney/BBC

dyfu cnydau fel ffa soi, sy'n cael eu hallforio a'u defnyddio fel bwydydd anifeiliaid.

> "Ym Mrasil, mae'r bobl Frodorol, pobl wreiddiol y tir hwn, wedi dioddef llawer o drais erioed. Collasant eu tiroedd a chawsant eu llofruddio oherwydd gwladychu. A heddiw, mae'r ymosodiadau ar ein hawliau'n parhau. Mae ein tiroedd a'n coedwigoedd yn parhau i gael eu dinistrio. Ac fe gollom ein bywydau hyd yn oed oherwydd buddiannau economaidd grymus iawn."
>
> Indigenous leader, o'r Commissao Guarani Yvyrupa

I ddiogelu eu diwylliant, eu bodolaeth, ac fel y cyfryw, eu coedwigoedd, mae angen cymorth byd-eang gan lywodraethau, cyrff anllywodraethol, busnesau a'r gymdeithas sifil ar bobl y Gwarani. Mae pobl y Gwarani yn galw ar bobl y byd cyfan i gefnogi eu brwydr i ddiogelu coedwigoedd ac adfer tiroedd hynafiadol – i wrando ar leisiau'r rhai hynny sydd â gwybodaeth unigryw am sut i ofalu am goedwigoedd. O ran llywodraethau, busnesau a sefydliadau, mae hyn yn golygu cefnogi gosod ffiniau o gwmpas tiroedd Brodorol a pharchu fframweithiau hawliau dynol a gydnabyddir yn rhyngwladol, fel Datganiad o Hawliau Pobloedd Frodorol y Cenhedloedd Unedig. Mae'n golygu eu bod yn sicrhau nad yw'r cynhyrchion a'r nwyddau a brynant yn tresmasu ar yr hawliau hyn. Er enghraifft, mynnu bod cyflenwyr yn gallu dangos olrhainadwyedd llawn yn eu cadwyni cyflenwi sy'n peryglu coedwigoedd, neu ddogfennaeth ar Gydsyniad Deallus, Blaenorol a Rhydd ar gyfer nwyddau a dyfir ar diroedd Brodorol.

Mae'n golygu gwneud cymaint ag y gallant yn eu gweithrediadau a'u harfer caffael i leihau datgoedwigo trofannol a thrawsnewid tir i ddiogelu cymunedau Brodorol a mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur. Mae'r rhain yn ffyrdd ystyrlon o gryfhau'r warchodaeth dros y man lle rydyn ni bob un yn byw – y coedwigoedd, yr afonydd. Mae'r frwydr hon nid yn unig dros bobl y Gwarani, ond dros bawb. Mae'n frwydr dros y bywyd da, brwydr dros fywyd y Blaned.

© Carlos Penteado